# Adroddiad Blynyddol Cynghorwyr CBSP

**Y Cynghorydd John C. Spanswick**

**Ward: Canol Gorllewin Bracla**

**Plaid: Llafur Cymru**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy mhrif weithgareddau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024. Mae'n cael ei ddarparu er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad hwn yw barn y Cynghorydd ac nid ydyw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr..

| |
|---|
| **Y Rôl a Chyfrifoldebau**<br><br>Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli ward Bracla gyfan ym mis Mai 1999 ynghyd â 3 Chynghorydd Llafur arall. Yn yr etholiadau lleol diweddaraf ym mis Mai 2022, newidiodd y Comisiwn Ffiniau gyfansoddiad wardiau ar draws y Fwrdeistref Sirol a arweiniodd at rannu Bracla yn nifer o wardiau ac rwyf bellach yn cynrychioli ward Canol Gorllewin Bracla ac nid Bracla gyfan.<br><br>Deuthum yn aelod o'r cabinet ym mis Mai 2022 fel yr Aelod Cabinet dros Gymunedau gyda phortffolio yn cwmpasu meysydd fel gwastraff, glanhau strydoedd, parciau, mynwentydd, cynllunio, cefn gwlad, bioamrywiaeth, newid yn yr hinsawdd, trafnidiaeth a phriffyrdd.<br><br>Rwyf wedi cefnogi trigolion ar amrywiaeth o faterion ac rwy'n parhau i godi ymholiadau etholwyr gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael â nifer o faterion eraill ar draws y gymuned y gofynnwyd i mi geisio eu datrys.<br><br>Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am fy rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau drwy ddilyn y ddolen hon:<br><br>[Y Cynghorydd John Spanswick] |
| **Gweithgareddau Etholaethol**<br><br>Nid wyf wedi trefnu unrhyw gymorthfeydd ward dros y flwyddyn ddiwethaf gan fy mod yn tueddu i weld bod yn well gan drigolion gysylltu yn uniongyrchol dros y ffôn, e-bost ac yn fwyfwy dros y cyfryngau cymdeithasol, ond rwy'n barod i ystyried cynnal cymorthfeydd yn y dyfodol pe bai'r galw'n codi.<br><br>Cefais fy ethol hefyd i Gyngor Cymuned Bracla ym mis Mai 2022 ar gyfer ward Gorllewin Bracla ac rwyf wedi ymgymryd â'r rôl hon ers 1992.<br><br>Rwyf wedi sicrhau fy mod ar gael ledled Bracla gan weithio gyda fy nghyd-gynghorwyr ward sy'n cynrychioli wardiau eraill Bracla. |

Rwyf wedi gyrru a cherdded o amgylch Bracla yn rheolaidd gan nodi unrhyw faterion y mae angen mynd i'r afael â nhw a'u cyfeirio at CBSP yn brydlon er mwyn gweithredu fel y bo'n briodol.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwyf wedi parhau i helpu gyda Diwrnod Hwyl Bracla sy'n cael ei ariannu'n llawn gan Gyngor Cymuned Bracla ac rwyf wedi bod yn ymwneud â nhw ers i'r un cyntaf gael ei gynnal ym 1998.

Ynghyd â hyn, rwy'n parhau i drafod gyda'r Cyngor Cymuned ar opsiynau i ystyried ysgwyddo cyfrifoldebau cynnal a chadw ar gyfer rhai o'n mannau gwyrdd.

Rwyf wedi bod wrthi'n sicrhau bod gan Bracla gyfleusterau chwarae newydd ac wedi'u hadnewyddu ar draws y ward ynghyd â pharc sglefrio newydd. Mae hyn wedi cymryd llawer mwy o amser na'r disgwyl, ond rhagwelir y bydd y gwaith yn cychwyn yn fuan.

Yn ogystal, rwyf wedi parhau i weithio gyda swyddogion ar gynllun i ddarparu llwybr hygyrch mewn man agored Brackla Hill.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Rwyf wedi cwrdd â datblygwyr sy'n gyfrifol am rai o'r ardaloedd parcio preifat ym Mracla ac wedi llwyddo i'w cael i dderbyn cyfrifoldeb am o leiaf 3 ardal, a byddaf yn parhau â'r gwaith hwn i geisio cynnal mwy o'r ardaloedd hyn.

Rwyf wedi mynychu sawl cyfarfod gyda Chymdeithas Tai Wales & West i helpu i ddatblygu perthnasoedd cymunedol a gweithio mewn partneriaeth â nhw ar fentrau a gweithgareddau.

**Y Cynghorydd: John C. Spanswick** **Dyddiad: 27 Mehefin 2024**